**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus;
Senedd Cymru

seneddpapa@senedd.wales

24 Ionawr 2025

Annwyl Mark,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 4 Cymru ynglŷn â chyhoeddi Llawlyfr Cabinet Llywodraeth Cymru.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith ar y pwnc hwn hyd yma, a byddaf yn ymdrin â'ch pwyntiau yn eu tro.

Tryloywder

Rwy'n ail-bwysleisio fy ymrwymiad i sicrhau bod yr adnodd gwerthfawr hwn ar gael i'r cyhoedd er mwyn gwella eu dealltwriaeth o beirianwaith y Llywodraeth, a hefyd cynnal ein hymrwymiad i dryloywder ac atebolrwydd. Bydd y Llawlyfr ar gael ochr yn ochr â'r Cod Gweinidogol ar llyw.cymru, gan weithredu fel canllaw rhagarweiniol i Lywodraeth Cymru ar gyfer Gweinidogion newydd, eu Swyddfeydd Preifat, ac eraill ar draws y Llywodraeth. Mae'n rhoi trosolwg rhagarweiniol o'r elfennau allweddol o gefnogaeth sydd ar gael i Weinidogion, a'r mecanweithiau gwneud penderfyniadau sy'n weithredol yn y Llywodraeth.

Mae'r Llawlyfr yn cyflwyno'r Cod Gweinidogol, yr hyn y gall Gweinidog ei ddisgwyl gan ei Swyddfa Breifat ac adran bolisi. Mae hefyd yn disgrifio'r cyd-destun cyfansoddiadol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ynddo, gan gynnwys ei pherthynas â'r ddeddfwrfa, yn ogystal â Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill.

Fel y nodoch yn eich llythyr, ac fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthych, bydd argymhellion o'r ymchwiliad COVID y byddwn yn dymuno eu hystyried cyn eu cynnwys yn y Llawlyfr. Rydych hefyd yn fy nghyfeirio at yr ymatebion i'r ymgynghoriad rydych chi wedi'i gynnal, a bydd angen inni ystyried y rhain wrth baratoi'r fersiwn i'w chyhoeddi. O ystyried y pwyntiau hyn, rwy'n bwriadu anrhydeddu'r ymrwymiad i gyhoeddi'r Llawlyfr, ond bydd angen

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymestyn y llinell amser ychydig er mwyn ystyried sylwadau'r Pwyllgor. Felly, rwy'n disgwyl i fersiwn gychwynnol gael ei chyhoeddi'n gynnar yn 2025.

Diweddariadau i'r Llawlyfr

Cafodd y Llawlyfr mewnol presennol ei adolygu yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd, a chan y Prif Weinidogion newydd. Bydd hyn yn parhau i fod yn wir, ond hefyd rwy'n bwriadu adolygu'r Llawlyfr bob hydref er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau ar draws y Llywodraeth yn cael eu cynnwys. Byddaf yn rhoi manylion pellach i'r aelodau am hyn maes o law.

Cynnwys

Rwy'n nodi dymuniad y Pwyllgor i barhau i ymgysylltu mewn perthynas â'r Llawlyfr ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, ac rwy'n edrych ymlaen at gael unrhyw awgrymiadau pellach gan y Pwyllgor.

Datgeliadau heb eu hawdurdodi

Gallaf gadarnhau, fel y nodir gan yr Ysgrifennydd Parhaol, y cyfeirir at y broses mewn perthynas â datgeliadau heb eu hawdurdodi mewn termau cyffredinol, gan adlewyrchu cyfrinachedd angenrheidiol y broses a nodir yn y Llawlyfr.

Canllawiau ar dechnoleg

Rwy'n bwriadu ystyried unrhyw argymhellion o'r ymchwiliad COVID, a byddaf yn cynnwys canllawiau priodol ar arferion da mewn perthynas â defnyddio technoleg i gyflawni busnes y Llywodraeth, ar yr adeg briodol.

Llywodraeth agored

Bydd cyhoeddi'r Llawlyfr yn dangos unwaith yn rhagor ymrwymiad fy Llywodraeth i egwyddorion Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored y DU.

Ymgynghori

Rwy'n cyd-fynd â'r sylwadau a wnaed gan Transparency International UK yr ydych yn eu cynnwys yn eich llythyr, ac rwy'n falch o'r cyfle i barhau i gyflawni ar ran pobl Cymru drwy Lywodraeth dryloyw ac atebol.

Yn gywir,



**Eluned Morgan**